

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GLUDIANT



**Cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol  
Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm  
i greu un ysgol ardal ar 1 Medi 2019**

**Gwanwyn 2018**



## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb ynghylch y cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm i greu un ysgol ardal o 1 Medi 2019.
- 1.2. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol yn nodi gwybodaeth y dylai ymgynghoreion ystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.
- 1.3. Ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r mwyaf cywir sydd ar gael adeg cyhoeddi.

## 2. Diben yr Asesiad

- 2.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gludiant hwn yn anelu i sefydlu'r trefniadau cludiant presennol i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm. Mae'r costau presennol i'r Awdurdod Lleol ac amseroedd siwrnai i ddisgyblion wedi eu nodi a sut yr effeithir arnynt os caiff y cynnig ei weithredu.

## 3. Polisi Cludiant

- 3.1. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint bennu pa un a yw darparu cludiant i ddisgyblion oed ysgol statudol i hwyluso presenoldeb yn ysgol ddynodedig y disgybl dan sylw. Os ystyrir bod cludiant o'r fath yn angenrheidiol, yna dylid darparu'r cludiant yn rhad ac am ddim.
- 3.2. Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu cludiant am ddim i blant oedran gorfodol o dan nifer o wahanol feini prawf, gan gynnwys:
  - Pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf; a
  - lle mae'r ffordd i'r ysgol yn cael ei hystyried yn beryglus gan yr Awdurdod Lleol;
- 3.3. Gellir gweld y Polisi Cludiant llawn drwy'r ddolen ganlynol:

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Transport.aspx>

## 4. Proffil Cludiant

### 4.1. Ystadegau Lleol a Chenedlaethol

- 4.2. Mae ystadegau gweithlu o'r Cyfrifiad<sup>1</sup> mwyaf diweddar yn 2011 yn dangos fod gan Sir y Fflint boblogaeth sy'n gweithio (pobl rhwng 16 a 74) o 112,325. O'i gymharu â'r ffigwr cenedlaethol o 2,245,166 mae hyn yn cynrychioli 5% o'r boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru.
- 4.3. Mae dros 48% o bobl yn dewis gyrru i'r gwaith yn Sir y Fflint sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn rhannol o ganlyniad i natur wledig y sir. Mae

---

<sup>1</sup> (Office of National Statistics, 2011)

Tabl 1 isod yn dangos y gwahanol ddulliau o deithio i'r gwaith yn Sir y Fflint a sut maent yn cymharu ag ystadegau cyffredinol Cymru.

| Dull o deithio i'r gwaith                    | Cyngor Sir y Fflint |                | Cymru            |                |
|--|---------------------|----------------|------------------|----------------|
|  | Nifer               | Canran         | Nifer            | Canran         |
| Gyrru car neu fan                            | 53,927              | 48.01%         | 918,645          | 40.92%         |
| Ddim yn gweithio                             | 38,276              | 34.08%         | 881,551          | 39.26%         |
| Ar droed                                     | 5,676               | 5.05%          | 145,135          | 6.46%          |
| Teithiwr mewn car neu fan                    | 4,941               | 4.40%          | 92,727           | 4.13%          |
| Yn gweithio yn neu o gartref yn bennaf       | 3,234               | 2.88%          | 73,140           | 3.26%          |
| Bws, bws mini neu goets                      | 2,951               | 2.63%          | 62,903           | 2.80%          |
| Beic   | 1,311               | 1.17%          | 19,659           | 0.88%          |
| Trên   | 676                 | 0.60%          | 27,341           | 1.22%          |
| Beic modur, sgwter neu foped                 | 533                 | 0.47%          | 7,694            | 0.34%          |
| Dull arall o deithio i'r gwaith              | 412                 | 0.37%          | 8,673            | 0.39%          |
| Tacsi  | 343                 | 0.31%          | 6,523            | 0.29%          |
| Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram | 45                  | 0.04%          | 1,175            | 0.05%          |
|  | <b>112,325</b>      | <b>100.00%</b> | <b>2,245,166</b> | <b>100.00%</b> |

Tabl 1: Ystadegau Dull o Deithio i'r Gwaith 2011

#### 4.4. Costau Cludiant

- 4.5. Yn Ionawr 2018 roedd yna 67 disgybl llawn amser wedi cofrestru (UN System) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd, gyda 35 o'r disgyblion hynny yn mynychu eu hysgol gymunedol agosaf. Os byddai pob plentyn sy'n gymwys i gludiant am ddim i'r ysgol yn gwneud cais am y gwasanaeth, byddai cyfanswm y gost i'r Awdurdod Lleol yn £22,800.
- 4.6. Fodd bynnag, yn 2017/18 roedd cyfanswm cost i'r Awdurdod Lleol gludo plant i Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd yn £0 mae hyn o ganlyniad i rieni/gofalwyr ddim yn defnyddio'r gwasanaeth.
- 4.7. O'r 48 disgybl llawn amser oedd wedi cofrestru (UN System) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ionawr 2018, roedd 24 yn mynychu eu hysgol gymunedol agosaf. Byddai'r gost i'r Awdurdod Lleol os byddai holl blant sy'n gymwys yn hawlio cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn £6,650.
- 4.8. Fodd bynnag, yn 2017/18 roedd cyfanswm cost i'r Awdurdod Lleol gludo plant i Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn £0 mae hyn o ganlyniad i rieni/gofalwyr ddim yn defnyddio'r gwasanaeth.
- 4.9. Mae'r ffigyrau hyn yn cyfuno i roi cyfanswm presennol o £29,450 450 pe bai pob plentyn cymwys yn hawlio cludiant am ddim.

#### 4.10. Amseroedd Siwrnai

- 4.11. Fel rhan o'r ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i drefnu trefniadau cludiant i blant fynychu ysgol, ystyrir nad yw trefniadau'n addas os:

- Ydynt yn achosi lefelau afresymol o straen i'r plentyn;
- Ydynt yn cymryd gormod o amser; neu
- Os nad ydynt yn ddiogel.

4.12. Mae Mesur Teithio Dysgwyr 2014 yn amlinellu'r polisi teithio ysgolion Cymru. Mae'n nodi'r hawl i gludiant ar gyfer plant ifanc, gan ei wneud yn rhad ac am ddim ar gyfer plant oed ysgol gynradd os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy oddi wrth yr ysgol addas agosaf.

4.13. Nid yw'r Mesur na'r Cyfarwyddyd Statudol (Darpariaethau Statudol a Chanllawiau Statudol Teithio gan Ddysgwyr 2014) yn pennu cyfyngiad amser ar gyfer teithio i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion unigol dysgwyr wrth ystyried a yw amser siwrnai yn rhesymol. Dylai asesiad ystyried natur, pwrpas ac amgylchiadau pob siwrnai yn ogystal â'r canlynol:

- Oed y dysgwr
- A oes gan y dysgwr unrhyw anabledd neu anawsterau dysgu y mae angen eu hystyried
- Lleoliad cartref y dysgwr mewn perthynas ag argaeledd ysgolion yn y cyffiniau.

4.14. Er mwyn asesu effeithiau posibl ar amseroedd siwrnai i ddisgyblion mae'r amcangyfrif o'r pellter rhwng Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm wedi eu cyfrif fel 1.96 milltir.

## 5. Effeithiau Posibl

5.1. Os caiff y Cynnig presennol ei gytuno a'i weithredu, bydd Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cau ar 31 Awst 2019. Byddai'r ysgol ardal gyfun newydd yn agor ar 1 Medi 2019 i ddechrau ar drefniant safle ranedig ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm (Cam 1) nes bod buddsoddiad cyfalaf yn ei le i ddatblygu ysgol ardal newydd (Cam 2).

5.2. Mae ar yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol i ystyried 'y dewis y mae rhieni yn ei fynegi' mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion. (<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Admissions.aspx>) mae'n anodd rhagweld i ba ysgol y byddai plentyn yn symud os byddai eu hysgol bresennol yn cau. Wrth gyfrif effeithiau posibl felly, rhagwelir y bydd pob plentyn yn symud i'r ysgol ardal newydd.

### 5.3. Effaith ar Gostau Cludiant

5.4. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu rhagwelir yn ystod Cam 1 na fyddai yna newid sylweddol i'r costau cludiant presennol. Er y byddai plant yn mynychu ysgol ardal newydd byddent yn dal i deithio i safle eu hysgol bresennol ac felly rhagwelir y byddai'r rhai sy'n hawlio cludiant am ddim ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny.

5.5. Gall cam 2 o'r cynnig weld cynnydd mewn costau cludiant os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis anfon eu plentyn/plant i'r ysgol ardal newydd. Ar ôl cael gwared ag Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, os byddai pob plentyn sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ar hyn o bryd, a fyddai'n gymwys i gludiant i'r ysgol am ddim, yn gwneud cais am y gwasanaeth gall y costau cludiant posibl gynyddu i £25,650.

- 5.6. Byddai'r effaith mwyaf ar blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm ar hyn o bryd. Os byddai'r ysgol yn cael ei thynnu o'r system, byddai'r nifer o blant fyddai'n gymwys i gludiant am ddim i'r ysgol ardal newydd ar safle Brynffordd yn cynyddu ac yn arwain at gostau posibl o £26,600 os byddai pob disgybl sy'n gymwys yn derbyn y cynnig o gludiant am ddim.
- 5.7. Gallai costau cludiant posibl felly gynyddu i £52,250, pe bai Cam 2 o'r cynnig yn cael ei weithredu.

| SENARIO  | COSTAU POSIBL |
|--|---------------|
| Gadael pethau fel y maent (Dwy Ysgol Annibynnol) | £29,450       |
| Cam 1 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Ddau Safle) | £29,450       |
| Cam 2 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Ddau Safle) | £52,250       |

### 5.8. Effaith ar Amseroedd Siwrnai

- 5.9. O'r 67 disgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd yn Ionawr 2018, byddai gan llai na 10<sup>2</sup> fwy o bellter i'w hysgol agosaf pe bai Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cau. Ni fyddai amser siwrnai i'r disgyblion hyn yn newid gan mai eu hysgol agosaf nesaf fyddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd.
- 5.10. O'r 48 disgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ionawr 2018, byddai gan 24 fwy o bellter i'w hysgol agosaf pe bai Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cau. Bydd amser siwrnai i'r disgyblion hyn yn cynyddu o ganlyniad.
- 5.11. Byddai gan lai na 10 o'r 48 disgybl fodd bynnag gynydd yn amser eu siwrnai er eu bod yn mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm eu hysgol agosaf yw Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd.
- 5.12. O'r disgyblion hynny â mwy o bellter i'w hysgol agosaf, ni fydd yr un yn gweld mwy o bellter na 2 filltir.

### 5.12 Llwybrau Diogel yn y Gymuned

- 5.13. Mae Ysgolion Cynradd Brynffordd a Licswm yn y gorffennol wedi manteisio o gynllun Llwybrau Diogelach yn y Gymuned, a noddwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gwella hygyrchedd drwy sefydlu cysylltiadau llwybrau troed a goleuadau stryd.

### 5.14. Crynodeb o Effaith

| SENARIO  | EFFAITH POSIBL AR |                   |                 |
|--|-------------------|-------------------|-----------------|
|  | Costau Cludiant   | Amseroedd Siwrnai | Llwybrau Diogel |
| Gadael pethau fel y maent (Dwy Ysgol Annibynnol) | Dim newid         | Dim newid         | Dim newid       |
| Cam 1 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Ddau Safle) | Dim newid         | Dim newid         | Dim newid       |
| Cam 2 Arfaethedig (Un Ysgol Ardal ar Ddau Safle) | Wedi cynyddu      | Wedi cynyddu      | Dim newid       |

Tabl 2: Crynodeb o Effeithiau Posibl

<sup>2</sup> Nid oes ffigurau manwl gywir wedi'u dyfynnu i ddiogelu hunaniaeth plant a theuluoedd unigol

## 6. Casgliad

- 6.1. Trwy aros yr un fath, byddai plant yn parhau i fynychu'r ysgol bresennol ac o ganlyniad ni fyddai unrhyw effaith ar gostau cludiant presennol nac ar amseroedd siwrnai presennol.
- 6.2. Byddai gweithredu'r cynnig yn effeithio ar drefniadau cludiant ond nid nes y byddai Cam 2 yn cael ei wireddu. Rhagwelir y byddai costau cludiant ac amseroedd siwrnai yn aros yr un fath yn ystod Cam 1, oherwydd er y byddai ysgol ardal newydd yn cael ei chreu, ni fyddai plant angen symud o'u safle astudio presennol oherwydd y byddai safleoedd Brynffordd a Licswm yn dal i gael eu defnyddio.
- 6.3. Byddai cyfuno'r ysgol ardal newydd ar safle Brynffordd o dan Gam 2 yn golygu y byddai rhai plant yn gweld amser siwrnai i'r ysgol yn cynyddu. Byddai rhai plant yn gweld gostyngiad yn amser eu siwrnai oherwydd er eu bod yn mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm byddent mewn gwirionedd yn byw yn agosach at safle Brynffordd.
- 6.4. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, os byddai pob plentyn sy'n gymwys i dderbyn cludiant am ddim i'r ysgol ardal newydd yn derbyn y gwasanaeth, gallai costau cludiant godi i £52,250. Byddai'r union ffigwr yn cael ei bennu yn ôl y nifer o geisiadau, yr ardaloedd lle gwneir y ceisiadau, maint cerbydau sydd eu hangen a'r costau y cytunwyd arnynt yn ystod y broses dendro a thrafodaethau contract.
- 6.5. Fodd bynnag dylid nodi er bod yna botensial i wneud hynny, ni rhagwelir y bydd costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol oherwydd y nifer o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd.